
ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch: cofnodi a mesur deilliannau



## Canllawiau


Dogfen ganllawiau: rhif 291/2023
Dyddiad cyhoeddi: Tachwedd 2023
Yn disodli dogfen ganllawiau: rhif 204/2016

# Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch: cofnodi a mesur deilliannau

**Cynulleidfa**

Sefydliadau addysg bellach, awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol; ysgolion â chweched dosbarth.

**Trosolwg**

Mae'r canllawiau hyn yn nodi y dull yr ydym yn ei gynnig ar gyfer mesur deilliannau Bagloriaeth Cymru ôl-16, a'r gofynion ar gyfer cofnodi data i gefnogi'r dull hwn.

**Camau i'w cymryd**

Dim – er gwybodaeth yn unig.

**Rhagor o wybodaeth**

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:

Bethan Milton
Yr Is-adran Addysg Bellach a Phrentisiaethau
Y Gyfarwyddiaeth Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes
Llywodraeth Cymru
Tŷ'r Afon
Heol Bedwas
Bedwas
CF83 8WT

Ffôn: 0300 025 3905

e-bost: post16quality@llyw.cymru

**Copïau ychwanegol**

Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn www.llyw.cymru/addysgasgiliau

OGL © Hawlfraint y Goron 2023, Llywodraeth Cymru, WG47725, ISBN digidol 978-1-83504-077-5
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# Cynnwys


**Cyflwyniad** 2

**Strwythur cymwysterau ar gyfer Bagloriaeth Cymru ôl-16** 3

**Gofynion cofnodi data ar gyfer Bagloriaeth Cymru ôl-16** 4

**Adrodd ar ddeilliannau Bagloriaeth Cymru ôl-16** 5

**Rhagor o wybodaeth** 6

**Atodiad A: Sut i gofnodi Bagloriaeth Cymru ôl-16 – ysgolion** 7

**Atodiad B: Sut i gofnodi Bagloriaeth Cymru ôl-16 – sefydliadau addysg bellach** 10

# Cyflwyniad

1. Cyflwynwyd Bagloriaeth Cymru ym mis Medi 2015. Cafodd ei adolygu yn 2020 ac ar ôl ymgynghori, penderfynwyd rhoi'r gorau i'r Fagloriaeth Cymru bresennol er mwyn gallu canolbwyntio ar gymhwyster annibynnol sy'n seiliedig ar sgiliau.

2. Bydd y Dystysgrif Her Sgiliau Uwch gyfredol yn cael ei thynnu'n ôl gyda dyfarniad terfynol y cymhwyster yn Haf 2024. Bydd y cymhwyster Lefel 3 newydd yn cael ei gyflwyno o fis Medi 2023, a'i ddyfarnu am y tro cyntaf yn Haf 2025.

3. Bydd y cymhwyster newydd ar gael fel cymhwyster annibynnol y gellir ei gymryd ochr yn ochr â chymwysterau cyffredinol a galwedigaethol eraill fel rhan o raglen ddysgu amrywiol. Bydd yn gyfwerth â Safon Uwch o ran maint a gofynion, a bydd yn cael ei raddio A*-E. Bydd hyn yn sicrhau na fydd unrhyw newidiadau i'r ffordd y mae'r cymhwyster yn denu pwyntiau tariff UCAS.

4. Nid yw Bagloriaeth Cymru yn statudol ar gyfer ôl-16, ond mae polisi Llywodraeth Cymru yn annog pob chweched dosbarth a choleg addysg bellach i'w gynnig fel rhan o'u rhaglenni dysgu.

5. O ganlyniad, rydym yn cynnig disodli'r mesurau perfformiad presennol ar gyfer Bagloriaeth Cymru gyda graddau a chyfraddau cyrhaeddiad cyffredinol ar gyfer Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch.

6. Bydd y mesurau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i raglenni, gweithgareddau a deilliannau dysgu gael eu cofnodi'n gywir ac yn gyson gan holl ddarparwyr cymwysterau ôl-16 o fewn ffiniau'r systemau casglu data gwahanol ar gyfer ysgolion a sefydliadau addysg bellach. Mae'r ddogfen hon yn nodi y dull yr ydym yn ei gynnig ar gyfer mesur deilliannau Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch, a'r gofynion ar gyfer cofnodi data i gefnogi'r dull hwn.

## Strwythur cymwysterau ar gyfer Bagloriaeth Cymru ôl-16

7. Mae rhaglen Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch yn gymhwyster annibynnol dros ddwy flynedd.

8. Ceir mwy o wybodaeth yn y manylebau a gyhoeddir gan CBAC.

## Gofynion cofnodi data ar gyfer Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch

9. Mae ysgolion a sefydliadau addysg bellach yn cofnodi data ynglŷn â dysgwyr a'r cymwysterau y maent yn eu dilyn yn eu systemau gwybodaeth reoli eu hunain. Ar gyfer ysgolion, caiff hwn ei lanlwytho i Lywodraeth Cymru trwy DEWi yn rhan o gasgliad data ôl-16 unwaith y flwyddyn (ym mis Hydref). Ar gyfer sefydliadau addysg bellach cyflwynir y data i Lywodraeth Cymru trwy Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru ar sail dreigl trwy gydol y flwyddyn.

10. Er mwyn monitro’r cyfraddau cyfranogiad a’r deilliannau, mae’n hanfodol bod ysgolion a sefydliadau addysg bellach yn cofnodi rhaglenni a gweithgareddau Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch yn fanwl gywir. Byddwn yn mesur cyflawniad dros ddwy flynedd, fel bod gennym ddarlun cywir o faint o ddysgwyr sy’n rhoi’r gorau iddi ar ôl y flwyddyn gyntaf (neu unrhyw bryd cyn cyflawni’r cwrs).

11. Mae’r rhif Dynodiad Cymeradwy Cymwysterau Cymru (QWAD) ar gyfer gwahanol gydrannau Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch fel a ganlyn:

| Lefel | Disgrifiad | QWAD |
|---|---|---|
| Lefel 3 | CBAC Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch | C00/4571/8 |

12. Gellir gweld enghreifftiau o sut y dylid cofnodi Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch gan ysgolion yn y casgliad ôl-16 a sefydliadau addysg bellach ar Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR) yn yr atodiadau:
    - Mae **Atodiad A** yn dangos enghraifft ar gyfer ysgolion; ac
    - Mae **Atodiad B** yn dangos enghraifft ar gyfer sefydliadau addysg bellach.

## Adrodd ar ddeilliannau Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch

13. Mae'r mesurau ar gyfer Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch yn rhan o'n mesurau perfformiad cyson ar gyfer dysgu ôl-16.

14. Yn hytrach na bod yn seiliedig ar y nifer sy'n sefyll arholiadau yn unig, bydd y mesurau cyson yn seiliedig ar 'gyflawniad', hynny yw, byddant yn adlewyrchu'r garfan gyfan o ddysgwyr, gan gynnwys cwblhau yn ogystal â chyrhaeddiad.

15. Wrth i'r Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch newydd sefydlu ei hun, byddwn yn datblygu data gwaelodlin er mwyn pennu meincnodau.

## Rhagor o wybodaeth

16. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r canllawiau hwn at post16quality@llyw.cymru.

# Atodiad A: Sut i gofnodi Bagloriaeth Cymru ôl-16 – ysgolion

### Addysg Gyffredinol

Yn 2023/24 mae dysgwr yn astudio tair Safon UG (Saesneg Iaith, Daearyddiaeth a Seicoleg) gyda Bagloriaeth Cymru Uwch. Mae hefyd yn ailsefyll TGAU Mathemateg. Mae’r dysgwr yn penderfynu peidio â pharhau â’r Safon UG Daearyddiaeth ym mis Rhagfyr 2023:

| Blwyddyn | Rhaglen | Gweithgaredd Dysgu | Dyddiad Cychwyn | Dyddiad Diwedd Disgwyliedig | Statws Cwblhau |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Rhaglen 1: 0014D03B (3 Safon UG a Bagloriaeth Cymru) Dyddiad dechrau: 01-09-2023 Dyddiad gorffen disgwyliedig: 31-07-2024 | Gweithgaredd 1: Safon UG Saesneg Iaith – C00/0723/1 | 01-09-2023 | 31-07-2024 | 2 – wedi cwblhau y gweithgaredd dysgu |
| | | Gweithgaredd 2: Safon UG Daearyddiaeth – C00/0791/8 | 01-09-2023 | 31-07-2024 | 3 – wedi penderfynu peidio â pharhau â’r gweithgaredd dysgu |
| | | Gweithgaredd 3: Safon UG Seicoleg – C00/0723/7 | 01-09-2023 | 31-07-2024 | 2 - wedi cwblhau y gweithgaredd dysgu |
| | | Gweithgaredd 4: TGAU Mathemateg – C00/0720/4 | 01-09-2023 | 31-07-2024 | 2 - wedi cwblhau y gweithgaredd dysgu |
| | | Gweithgaredd 5: Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch (Blwyddyn 1) – C00/4571/8 | 01-09-2023 | 31-07-2025 | 1 – yn parhau â’r gweithgaredd dysgu |
| 2 | Rhaglen 2: 0023C03B (2 Safon Uwch a Bagloriaeth Cymru) Dyddiad dechrau: 01-09-2024 Dyddiad gorffen disgwyliedig: 31-07-2025 | Gweithgaredd 7: Safon Uwch Saesneg Iaith – C00/5346/5 | 01-09-2024 | 31-07-2025 | 2 - wedi cwblhau y gweithgaredd dysgu |
| | | Gweithgaredd 8: Safon Uwch Seicoleg – C00/5719/7 | 01-09-2024 | 31-07-2025 | 2 - wedi cwblhau y gweithgaredd dysgu |
| | | Gweithgaredd 5: Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch (Blwyddyn 2) – C00/4571/8 | 01-09-2023 | 31-07-2025 | 2 - wedi cwblhau y gweithgaredd dysgu |

Noder: Dylid hefyd cofnodi pob gweithgaredd dysgu arall a gyflawnir o dan y Fagloriaeth Cymru ôl-16, gan gynnwys ailsefyll TGAU, Sgiliau Hanfodol ac ati.

**Galwedigaethol**

Yn 2023/24 mae dysgwr yn gwneud Diploma BTEC Lefel 3 mewn Busnes gyda Bagloriaeth Cymru Uwch. Mae'n parhau â'r Diploma BTEC Lefel 3 Estynedig yn yr ail flwyddyn:

| Blwyddyn | Rhaglen | Gweithgaredd Dysgu | Dyddiad Cychwyn | Dyddiad Diwedd Disgwyliedig | Statws Cwblhau |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Rhaglen 1: 1502AE0B (Gweinyddu Busnes Lefel 3) Dyddiad dechrau: 01-09-2023 Dyddiad gorffen disgwyliedig: 31-07-2024 | Gweithgaredd 1: Diploma BTEC Lefel 3 mewn Busnes – C000/0085/1 | 01-09-2023 | 31-07-2024 | 2 – wedi cwblhau'r gweithgaredd dysgu |
| | | Gweithgaredd 2: Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch (Blwyddyn 1) – C00/4571/8 | 01-09-2023 | 31-07-2025 | 1 – yn parhau â'r gweithgaredd dysgu |
| 2 | Rhaglen 2: 1502AE0B (Gweinyddu Busnes Lefel 3) Dyddiad dechrau: 01-09-2024 Dyddiad gorffen disgwyliedig: 31-07-2025 | Gweithgaredd 4: Diploma Estynedig BTEC Lefel 3 mewn Busnes – C00/0085/2 | 01-09-2024 | 31-07-2025 | 2 - wedi cwblhau'r gweithgaredd dysgu |
| | | Gweithgaredd 2: Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch (Blwyddyn 2) – C00/4571/8 | 01-09-2023 | 31-07-2025 | 2 - wedi cwblhau'r gweithgaredd dysgu |

Noder: Dylid hefyd cofnodi pob gweithgaredd dysgu arall a gyflawnir o dan y Fagloriaeth Cymru ôl-16, gan gynnwys ailsefyll TGAU, Sgiliau Hanfodol ac ati.

Yn 2023/24 mae dysgwr yn astudio Diploma BTEC Lefel 3 mewn Busnes gyda Bagloriaeth Cymru Uwch. Mae'r dysgwr yn penderfynu peidio â pharhau ar ôl y flwyddyn gyntaf:

| Blwyddyn | Rhaglen | Gweithgaredd Dysgu | Dyddiad Cychwyn | Dyddiad Diwedd Disgwyliedig | Statws cwblhau |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Rhaglen 1: 1502AE0B (Gweinyddu Busnes Lefel 3) Dyddiad dechrau: 01-09-2023 Dyddiad gorffen disgwyliedig: 31-07-2024 | Gweithgaredd 1: Diploma BTEC Lefel 3 mewn Busnes – C00/0085/1 | 01-09-2023 | 31-07-2024 | 2 – wedi cwblhau'r gweithgaredd dysgu |
| | | Gweithgaredd 2: Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch (Blwyddyn 1) – C00/4571/8 | 01-09-2023 | 31-07-2025 | 2 - wedi cwblhau'r gweithgaredd dysgu |

Noder: Dylid hefyd cofnodi pob gweithgaredd dysgu arall a gyflawnir o dan y Fagloriaeth Cymru ôl-16, gan gynnwys ailsefyll TGAU, Sgiliau Hanfodol ac ati.

# Atodiad B: Sut i gofnodi Bagloriaeth Cymru ôl-16 – sefydliadau addysg bellach

**Addysg Gyffredinol**

Yn 2023/24 mae dysgwr yn astudio tair safon UG (Saesneg Iaith, Daearyddiaeth a Seicoleg) gyda Bagloriaeth Cymru Uwch. Mae hefyd yn ailsefyll TGAU Mathemateg. Mae'r dysgwr yn penderfynu peidio â pharhau â Safon UG Daearyddiaeth ym mis Rhagfyr 2023:

| Blwyddyn | Rhaglen (LP74) | Math o LP (LP17) | Gweithgaredd Dysgu (LA06) | Dyddiad Cychwyn (LA09) | Dyddiad Diwedd Disgwyliedig (LA10) | Statws cwblhau (LA31) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Rhaglen 1: 0041C03B12 (3 Safon UG a Bagloriaeth Cymru) yn cynnwys codau ymestyn i nodi blwyddyn 1 o 2 | 80 | Gweithgaredd 1: Safon UG Saesneg Iaith – C00/0723/1 | 01-09-2023 | 31-07-2024 | 2 - wedi cwblhau y gweithgaredd dysgu |
| | | | Gweithgaredd 2: Safon UG Daearyddiaeth – C00/0791/8 | 01-09-2023 | 31-07-2024 | 3 - wedi penderfynu peidio â pharhau â'r gweithgaredd dysgu |
| | | | Gweithgaredd 3: Safon UG Seicoleg – C00/0723/7 | 01-09-2023 | 31-07-2024 | 2 - wedi cwblhau y gweithgaredd dysgu |
| | | | Gweithgaredd 4: Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch (Blwyddyn 1) – cod cyffredinol – LDKKSKLC (dim mynediad) | 01-09-2023 | 31-07-2024 | 4 - trosglwyddo i weithgaredd dysgu arall |
| | | | Gweithgaredd 5: TGAU Mathemateg – C00/0720/4 | 01-09-2023 | 31-07-2024 | 2 - wedi cwblhau y gweithgaredd dysgu |
| 2 | Rhaglen 2: 0023C03B22 (2 Safon Uwch a Bagloriaeth Cymru) yn cynnwys codau ymestyn i nodi blwyddyn 2 o 2 | 80 | Gweithgaredd 4: Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch (Blwyddyn 2) – C00/4571/8 | 01-09-2024 | 31-07-2025 | 2 - wedi cwblhau y gweithgaredd |
| | | | Gweithgaredd 6: Safon A Saesneg Iaith – C00/0722/6 | 01-09-2024 | 31-07-2025 | 2 - wedi cwblhau y gweithgaredd |
| | | | Gweithgaredd 7: Safon A Seicoleg – C00/0723/6 | 01-09-2024 | 31-07-2025 | 2 - wedi cwblhau y gweithgaredd |

Noder: Dylid hefyd cofnodi pob gweithgaredd dysgu arall a gyflawnir o dan y Fagloriaeth Cymru ôl-16, gan gynnwys ailsefyll TGAU, Sgiliau Hanfodol ac ati.

**Galwedigaethol**

Yn 2023/24 mae dysgwr yn gwneud Diploma BTEC Lefel 3 mewn Busnes gyda Bagloriaeth Cymru Uwch. Mae'n parhau â'r Diploma BTEC Lefel 3 Estynedig yn yr ail flwyddyn:

| Blwyddyn | Rhaglen (LP74) | Math o LP (LP17) | Gweithgaredd Dysgu (LA06) | Dyddiad Cychwyn (LA09) | Dyddiad Diwedd Disgwyliedig (LA10) | Statws cwblhau (LA31) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Rhaglen 1: 1502A03B12 (Gweinyddu Busnes Lefel 3) yn cynnwys codau ymestyn i nodi blwyddyn 1 o 2 | 80 | Gweithgaredd 1: Diploma BTEC Lefel 3 mewn Busnes – C00/0085/1 | 01-09-2023 | 31-07-2024 | 2 – wedi cwblhau'r gweithgaredd dysgu |
| | | | Gweithgaredd 2: Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch (Blwyddyn 1) – cod cyffredinol – LDKKSKLC (dim mynediad) | 01-09-2023 | 31-07-2024 | 4 - trosglwyddo i weithgaredd dysgu arall |
| 2 | Rhaglen 2: 1502A03B22 (Gweinyddu Busnes Lefel 3) yn cynnwys codau ymestyn i nodi blwyddyn 2 o 2 | 80 | Gweithgaredd 1: Diploma Estynedig BTEC Lefel 3 mewn Busnes - C00/0085/2 | 01-09-2024 | 31-07-2025 | 2 - wedi cwblhau'r gweithgaredd dysgu |
| | | | Gweithgaredd 2: Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch (Blwyddyn 2) – C00/4571/8 | 01-09-2024 | 31-07-2025 | 2 - wedi cwblhau'r gweithgaredd dysgu |

Noder: Dylid hefyd cofnodi pob gweithgaredd dysgu arall a gyflawnir o dan y Fagloriaeth Cymru ôl-16, gan gynnwys ailsefyll TGAU, Sgiliau Hanfodol ac ati.

Yn 2023/24 mae dysgwr yn astudio Diploma BTEC Lefel 3 mewn Busnes gyda Bagloriaeth Cymru Uwch. Mae'r dysgwr yn penderfynu peidio â pharhau ar ôl y flwyddyn gyntaf:

| Blwyddyn | Rhaglen (LP74) | Math o LP (LP17) | Gweithgaredd Dysgu (LA06) | Dyddiad Cychwyn (LA09) | Dyddiad Diwedd Disgwyliedig (LA10) | Statws cwblhau (LA31) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Rhaglen 1: 1502A03B12 (Gweinyddu Busnes Lefel 3) yn cynnwys cod ymestyn i nodi blwyddyn 1 o 2 | 80 | Gweithgaredd 1: Diploma BTEC Lefel 3 mewn Busnes - C00/0085/1 | 01-09-2023 | 31-07-2024 | 2 - wedi cwblhau'r gweithgaredd dysgu |
| | | | Gweithgaredd 2: Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch (Blwyddyn 1) – cod cyffredinol – LDKKSKLC (dim mynediad) | 01-09-2023 | 31-07-2024 | 2 - wedi cwblhau'r gweithgaredd dysgu |

Noder: Dylid hefyd cofnodi pob gweithgaredd dysgu arall a gyflawnir o dan y Fagloriaeth Cymru ôl-16, gan gynnwys ailsefyll TGAU, Sgiliau Hanfodol ac ati.